Asiantaeth Trwyddedu
Gyrwyr a Cherbydau

# Ymgynghoriad cyhoeddus

## Cyfnewid trwyddedau gyrru ceir a gyhoeddwyd ym Moldofa



CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
CSE

INVESTORS IN PEOPLE™
We invest in people Gold
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur

Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
Longview Road
Treforys
Abertawe
SA6 7JL

© Crown copyright 2025

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3** neu ysgrifennwch i'r Tîm Polisi Gwybodaeth, yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain, TW9 4DU neu anfonwch e-bost i: **psi@nationalarchives.gov.uk**
Lle yr ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

## Cyflwyniad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio'ch barn ar ganiatáu i yrwyr sy'n dal trwydded i yrru ceir a gafodd ei chyhoeddi ym Moldofa i'w chyfnewid am drwydded Prydain Fawr gyfatebol os yw'r gyrrwr yn dod yn breswylydd yn Mhrydain Fawr.

Bydd y newid hwn yn gymwys yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn unig. Mae trwyddedu gyrwyr wedi'i ddatganoli yng Ngogledd Iwerddon.

## Cefndir

Gall pobl sy'n preswylio ym Mhrydain Fawr sydd â thrwydded yrru ddilys wedi'i chyhoeddi mewn gwlad y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yrru cerbydau bach a gynhwysir ar y drwydded honno (gan gynnwys beiciau modur, ceir a cherbydau sy'n pwyso hyd at 3,500kg neu a hyd at wyth sedd teithiwr) am hyd at 12 mis. I barhau i yrru ar ôl y cyfnod hwn, mae'n ofynnol iddynt sefyll a llwyddo mewn prawf gyrru Prydain Fawr. Fodd bynnag, os ydynt o wlad a ddynodir ar gyfer dibenion cyfnewid trwydded yrru, gall gyrwyr gyfnewid eu trwydded am yr un Prydain Fawr gyfatebol heb yr angen i lwyddo mewn prawf gyrru.

Mae dynodi ar gyfer cyfnewid trwydded yrru yn ddibynnol ar y safonau profi a thrwyddedu yn y wlad neu'r diriogaeth wedi cael eu hasesu gan yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA) fel rhai cyfatebol i'r rheini ym Mhrydain Fawr. Cyn gynted â bod gwlad wedi cael ei dynodi, gall trwyddedau penodedig gael eu cyfnewid am yr un gyfatebol Prydain Fawr yn amodol ar ddeiliad y drwydded yn bodloni'r **gofynion** trwyddedu gyrwyr arferol gan gynnwys ar **iechyd**, ac **oedrannau isafswm ym Mhrydain Fawr**.

Gwledydd eraill a ddynodir ar hyn o bryd ar gyfer cyfnewid trwyddedau gyrru yw:

- Andorra
- Awstralia
- Barbados
- Ynysoedd y Wyryf Prydeinig
- Canada
- Ynysoedd Cayman
- Ynysoedd Falkland
- Ynysoedd Faroe
- Gibraltar
- Hong Kong
- Japan
- Monaco
- Seland Newydd
- Gogledd Macedonia
- Gweriniaeth Corea
- Singapôr
- De Affrica
- Y Swistir
- Taiwan
- Wcráin
- Emiradau Arabaidd Unedig (UAE)
- Simbabwe

Mae cyfnewid trwydded o wlad neu diriogaeth ddynodedig am un gyfatebol Prydain Fawr yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol:

i. mae'n rhaid i ymgeiswyr ddangos na chawsant y drwydded trwy gyfnewid blaenorol am un a gyhoeddwyd mewn trydedd gwlad lle nad yw'r safonau trwyddedu a phrofi yn bodloni'r rheini a osodir ym Mhrydain Fawr

ii. dim ond hawl i yrru cerbydau â thrawsyriant awtomatig fydd yn cael ei rhoi ar y drwydded Prydain Fawr oni bai fod cadarnhad y cafodd y prawf gwreiddiol ei gymryd mewn cerbyd â llaw

iii. mae'n rhaid i'r drwydded sy'n cael ei chyfnewid fod yn ddilys ar adeg ymgeisio am drwydded yrru Prydain Fawr

iv. mae'n rhaid i'r drwydded gael ei chyfnewid o fewn pum mlynedd o ddyddiad y deilydd yn dod yn breswylydd ym Mhrydain Fawr

Os yw deilydd y drwydded wedi bod yn breswylydd ym Mhrydain Fawr am fwy na phum mlynedd, mae'n rhaid iddo/iddi lwyddo mewn prawf theori a phrawf gyrru ymarferol Prydain Fawr i allu parhau i yrru.

## Y cynnig

Ystyrir yn awr dynodi Moldofa at ddibenion cyfnewid trwyddedau gyrru. Byddai hyn yn gofyn am orchymyn, sy'n cael ei adnabod fel gorchymyn dynodi, i gael ei wneud trwy offeryn statudol o dan adran 108 Deddf Traffig Ffyrdd 1988.

Mae safonau trwyddedu a phrofi gyrwyr ar hyn o bryd ym Moldofa wedi cael eu hasesu gan yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA) a'r DVSA. Mae'r DVSA wedi cadarnhau bod profion gyrru ceir perthnasol Moldofa yn cyfateb i'r rheini ym Mhrydain Fawr. O ganlyniad, mae'r DVLA yn cynnig caniatáu i drwyddedau ceir a gyhoeddwyd ym Moldofa gael eu cyfnewid am yr un gyfatebol Prydain Fawr heb yr angen am brawf gyrru ychwanegol. Mae hyn ar yr amod fod deiliaid y fath drwyddedau yn preswylio ym Mhrydain Fawr ac y gallant bodloni gofynion trwyddedu eraill. Gan y bydd deiliaid trwydded yrru o Moldofa wedi llwyddo mewn prawf o safon gyfatebol i'r rheini ym Mhrydain Fawr, ni chredwn y bydd effaith negyddol ar ddiogelwch ffyrdd.

Mae prosesau trwyddedu gyrwyr Moldofa, dogfennau a'r wybodaeth a arddangosir arnynt wedi cael eu hystyried i adnabod unrhyw faterion a allai arwain at drwyddedau Prydain Fawr yn cael eu dosbarthu yn amhriodol ac â risgiau annerbyniol i ddiogelwch ffyrdd. Nid oes materion wedi cael eu hadnabod.

## Buddion y newid a gynigir

Os caiff ei fabwysiadu, byddai'r cynnig yn caniatáu i ddeiliaid trwyddedau unigol ymgeisio am gyfnewid eu trwydded Moldofaidd am yr un gyfatebol Prydain Fawr heb yr angen i sefyll profion theori ac ymarferol.

Y prif fudd fydd caniatáu i ddeiliaid trwyddedau gyrru Moldofa sydd eisoes wedi bodloni safonau gyrru cyfatebol i'r rheini sy'n ofynnol ym Mhrydain Fawr i gael trwydded car Prydain Fawr llawn. Ni fydd rhaid i'r gyrwyr hyn ymgeisio am drwydded dros dro Prydain Fawr a chreu'r amser a chost ychwanegol ynghlwm â sefyll prawf gyrru arall wedyn.

Mae ffigyrau a gafwyd o gofnodion gyrwyr DVLA o Ionawr 2018 i Dachwedd 2024 y cafodd 33,472 o drwyddedau ceir dros dro Prydain Fawr eu dosbarthu i ymgeiswyr a Moldofa fel eu man geni.

Ni ddisgwylir y bydd unrhyw gostau nac arbedion sylweddol i'r DVLA. Byddai'r costau o gais cyfnewid trwydded yn parhau i gael eu hateb trwy'r ffi perthnasol. Gall y cynnig ddileu rhywfaint o alw am brofion gyrru ond ni ddisgwylir i hyn fod yn sylweddol.

Byddai dynodi ar y ddealltwriaeth fod Moldofa yn gweithredu trefniadau cyfatebol i ddeiliaid trwyddedau Prydain Fawr a bydd yn ofynnol i Brydain Fawr a Moldofa gadw'r trefniadau cyfnewid o dan adolygiad.

# Cwestiwn ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn ar y cwestiwn canlynol penodol yn ymwneud â'r newid a gynigir.

**Cwestiwn:**
**Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw reswm pam na ddylai'r DVLA gyfnewid trwyddedau gyrru ceir a gyhoeddwyd ym Moldofa am y drwydded Prydain Fawr gyfatebol?**

## Sut i ymateb

Mae'r ymgynghoriad yn rhedeg o 28 Chwefror i 28 Mawrth 2025. Gallwch ymateb trwy e-bostio **internationalpolicy@dvla.gov.uk**

Gallwch hefyd bostio'ch ymateb i:

Tîm Polisi Rhyngwladol
Cyfarwyddiaeth Strategaeth, Polisi
a Chyfathrebu – C3W
Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
Abertawe
SA6 7JL

Wrth ymateb, byddai o gymorth pe gallech ddatgan a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cynrychioli barn sefydliad. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, eglurwch pwy ydy'r sefydliad yn eu cynrychioli a, lle'n gymwys, sut y cafodd barn aelodau eu casglu.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr holl ymatebion yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori. Bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael ei gyhoeddi o fewn 3 mis a chyn neu ochr yn ochr ag unrhyw weithredu ychwanegol, er enghraifft, cyn i unrhyw orchymyn dynodi gael ei wneud. Bydd ar gael ar-lein yn GOV.UK. Byddwn yn hysbysu'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad pan fydd hyn yn digwydd.

## Preifatrwydd a Rhyddid Gwybodaeth

Rydym yn casglu, defnyddio a storio'ch data personol er mwyn inni allu cofnodi a dadansoddi'ch ymateb i'r ymgynghoriad.

Gallwn rannu'ch data personol os oes gennym reswm cyfreithlon, er enghraifft, fel rhan o ymchwiliad troseddol neu i atal twyll. **Darllenwch bolisi preifatrwydd DVLA** i ddysgu sut rydym yn casglu, defnyddio a storio'ch data.

Mae'r DVLA yn asiantaeth weithredol o'r Adran Drafnidiaeth (DfT). Y rheolwr data ar gyfer y DVLA yw DfT – mae rheolwr data yn penderfynu ar y rhesymau a sut mae data personol yn cael eu prosesu. Am ragor o wybodaeth, **gweler Cofrestr Cyhoeddus Diogelu Data Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)**. Rhif cofrestru DfT yw Z7122992.

### Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth

Gall fod angen inni gyhoeddi neu rannu rywfaint neu'r cwbl o'r sylwadau a dderbynnir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

O dan y FOIA, mae cod ymarfer statudol y mae'n rhaid inni gydymffurfio ag ef. Mae'n cwmpasu sut rydym yn ymdrin â gwybodaeth gyfrinachol.

Os oes rhesymau pam na fyddech yn dymuno i'ch sylwadau gael eu cyhoeddi neu eu datgelu, rhowch wybod inni. Er yn hyn o beth na all eich dymuniadau fynd y tu hwnt i unrhyw ofyniad statudol i ddatgelu, byddant yn cael eu hystyried cyn belled â phosibl.

Mae rhai systemau TG yn cynhyrchu ymwadiad cyfrinachedd awtomatig. Nid ydym yn eu cydnabod bob amser.

## Egwyddorion ymgynghori

Oherwydd effaith a chwmpas cyfyngedig y cynnig hwn rydym yn cyflawni ymgynghoriad wedi'i fyrhau. Mae'r ymgynghoriad hwn yn dilyn egwyddorion ymgynghori'r llywodraeth. Mae'r egwyddorion hyn yn rhoi canllawiau eglur inni ar redeg ymgynghoriadau. Am ragor o wybodaeth, **gweler ein tudalen canllaw egwyddorion ymgynghoriad**.

**Ymgynghoriad cyhoeddus**

Cyfnewid trwyddedau gyrru
ceir a gyhoeddwyd ym Moldofa

DVLA
Longview Road
Treforys
Abertawe
SA6 7JL

**gov.uk/dvla-cymraeg**